Pennod IV B

CYNHADLEDD Y DDEONIAETH

THE DEANERY CONFERENCE

Chapter IV B

Rhifyn / Issue 1
14 Ebrill / April 2010

PENNOD IV YR ESGOBAETH

A: Cynhadledd yr Esgobaeth
Rheoliadau yn ymwneud â Chynhadledd yr Esgobaeth

B: Cynhadledd y Ddeoniaeth
Rheoliadau yn ymwneud â Chynhadledd y Ddeoniaeth

C: Gweinyddu Plwyfi
Rheoliadau yn ymwneud â Gweinyddu Plwyfi

D. Trefniadau Tiriogaethol

CHAPTER IV THE DIOCESE

A: The Diocesan Conference
Regulations relating to the Diocesan Conference

B: The Deanery Conference
Regulations relating to the Deanery Conference

C: Parochial Administration
Regulations relating to Parochial Administration

D: Territorial Arrangements

PENNOD IV B

CYNHADLEDD Y DDEONIAETH

Rhan I: **Cyffredinol**

1
2
3

Rhan II: **Aelodaeth**

4

Rhan III: **Cymwysterau Aelodaeth**

5
6

Rhan IV: **Galluoedd**

7
8
9
10

CHAPTER IV B

THE DEANERY CONFERENCE

Part 1: General
1
2
3

Part II: Composition
4

Part III: Qualification for Membership
5
6

Part IV: Powers
7
8
9
10

Pennod IV

B: CYNHADLEDD Y DDEONIAETH

Rhan I: Cyffredinol

1.

Ym mhob Deoniaeth bydd Cynhadledd Ddeoniaethol ("y Gynhadledd").

2.

Bydd y Gynhadledd yn cydymffurfio ag unrhyw orchymyn neu gyfarwyddyd oddi wrth Gynhadledd yr Esgobaeth ac yn ei gyflawni.

3.

Bydd y Gynhadledd yn ddarostyngedig i'r rheoliadau a wnaed gan y Corff Llywodraethol.

Rhan II: Aelodaeth

4.

(1) Bydd y Gynhadledd yn cynnwys:

(*a*) aelodau yn rhinwedd swydd, y traethir eu swyddi yn Rhan I Rheoliadau'r Corff Llywodraethol yn ymwneud â Chynhadledd y Ddeoniaeth;

(*b*) aelodau etholedig, wedi eu hethol yn unol â darpariaethau Rhan I y Rheoliadau; ac

(*c*) aelodau cyfetholedig, wedi eu cyfethol yn unol â darpariaethau Rhan I y Rheoliadau.

(2) Os nad ydynt eisoes yn aelodau o'r Gynhadledd caiff cynrychiolwyr y ddeoniaeth ar fyrddau esgobaethol, aelodau o'r Corff Llywodraethol sy'n preswylio o fewn y Ddeoniaeth ac aelodau o Gorff y Cynrychiolwyr sy'n preswylio o fewn y Ddeoniaeth, ar wahoddiad y Gynhadledd, fod yn bresennol yn unrhyw gyfarfod ohoni a siarad ond ni chânt bleidleisio.

Chapter IV

B: THE DEANERY CONFERENCE

Part I: General

1.

In each Deanery there shall be a Deanery Conference ('the Conference').

2.

The Conference shall conform to and carry out any order or direction of the Diocesan Conference.

3.

The Conference shall be subject to regulations made by the Governing Body.

Part II: Composition

4.

(1) The Conference shall consist of:

(*a*) *ex-officio* members, whose offices are set out in Part I of the Governing Body Regulations relating to the Deanery Conference;

(*b*) elected members, elected in accordance with the provisions of Part I of the Regulations; and

(*c*) co-opted members, co-opted in accordance with the provisions of Part I of the Regulations.

(2) If not already members of the Conference, deanery representatives on diocesan boards and members of both the Governing Body and the Representative Body residing within the Deanery may, at the invitation of the Conference, attend any meeting thereof and speak but not vote.

Rhan III: Cymwysterau Aelodaeth

5.

Bydd holl aelodau'r Gynhadledd yn Gymunwyr a thros ddeunaw mlwydd oed.

6.

Bydd pob aelod lleyg o'r Gynhadledd, cyn gweithredu fel y cyfryw, yn arwyddo datganiad mewn cofrestr a gedwir at hynny gan Ysgrifennydd y Gynhadledd, yn y ffurf hon:

Yr wyf fi, J ... S ... o ... trwy hyn yn difrifol ddatgan fy mod yn Gymunwr dros ddeunaw mlwydd oed, ac yn gymwys i fod yn aelod o Gynhadledd Deoniaeth yn unol â Phennod IV Cyfansoddiad yr Eglwys yng Nghymru, ac nad wyf yn aelod o'r un corff crefyddol nad yw mewn cymundeb â'r Eglwys yng Nghymru.

Rhan IV: Galluoedd

7.

Yn ddarostyngedig i reolaeth y Corff Llywodraethol a Chynhadledd yr Esgobaeth, bydd y Gynhadledd yn rheoli ei materion ei hun.

8.

Gall y Gynhadledd benodi pwyllgor gwaith.

9.

Bydd y Gynhadledd yn penodi Ysgrifennydd.

Part III: Qualification for Membership

5.

All members of the Conference shall be Communicants and over the age of eighteen years.

6.

Every lay member of the Conference, before acting as such, shall sign a declaration in the following form in a book to be kept for that purpose by the Secretary of the Conference:

> *I, J…S…of…, do hereby solemnly declare that I am a Communicant over eighteen years of age and qualified to be a member of the …Deanery Conference according to the provisions of Chapter IV of the Constitution of the Church in Wales and I do not belong to any religious body which is not in communion with the Church in Wales.*

Part IV: Powers

7.

Subject to the control of the Governing Body and the Diocesan Conference, the Conference shall manage its own affairs.

8.

The Conference may appoint an executive committee.

9.

The Conference shall appoint a Secretary.

10.

Bydd swyddogaethau'r Gynhadledd yn cynnwys:

(*a*) hyrwyddo holl genhadaeth yr Eglwys: yn fugeiliol, efengylaidd, cymdeithasol, ac eciwmenaidd;

(*b*) asesu anghenion y Ddeoniaeth ynglŷn â chyllid, personél ac adeiladau;

(*c*) cynllunio strategol at addoli a gofal bugeiliol ledled y Ddeoniaeth;

(*d*) cynghori ar unrhyw fater a gyfeiriwyd yn briodol i'r Gynhadledd;

(*e*) gweithredu ar unrhyw ohebiaeth oddi wrth Gynhadledd yr Esgobaeth neu unrhyw Gyngor Plwyf Eglwysig o fewn y Ddeoniaeth ar y cyfryw faterion ag a ystyria'r Gynhadledd yn gymwys;

(*f*) rheoli a chodi cyllid i'r Ddeoniaeth;

(*g*) ethol Is-Gaderiydd lleyg o blith aelodau'r Gynhadledd ac, fel y bo angen, pan fydd y swydd honno'n wag; ac

(*h*) trafod materion yn ymwneud â'r Eglwys yng Nghymru, neu sydd o ddiddordeb crefyddol neu gyhoeddus arall, ac eithrio na chaiff trafod unrhyw faterion athrawiaethol gan y Gynhadledd fynd mor bell â llunio neu ddatgan athrawiaeth.

10.

The functions of the Conference shall include:

(*a*) promoting the whole mission of the Church: pastoral, evangelistic, social and ecumenical;

(*b*) assessing the needs of the Deanery in respect of finance, personnel and building;

(*c*) strategic planning for worship and pastoral care throughout the Deanery;

(*d*) advising on any matter properly referred to the Conference;

(*e*) acting on any communication from the Diocesan Conference or any Parochial Church Council within the Deanery on such matters as the Conference deems appropriate;

(*f*) managing and raising Deanery finances;

(*g*) electing a lay Vice-Chairman from among the members of the Conference and, as necessary, following any vacancy in the office; and

(*h*) discussing matters concerning the Church in Wales or otherwise of religious or public interest, but the discussion of any doctrinal matters by the Conference shall not extend to any formulation or declaration of doctrine.